

## NON(N) (NONNA, NONNITA), santes; fl. yn ddiweddar yn y 5ed ganrif

**Enw:** Non (N)  
**Plentyn:** Magna  
**Plentyn:** Mor  
**Plentyn:** Dewi  
**Rhiant:** Cynyr Ceinfarfod  
**Rhyw:** Benyw  
**Galwedigaeth:** santes  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Hywel David Emanuel

Merch Cynyr o Gaer Gawch ym Mynyw. Ceir y traddodiad amdani bron i gyd ym ' Muchedd Dewi Sant ' a gyfansoddwyd gan [Rygyfarch](#). Dywedir i Non gael ei threisio gan Sant (Sanctus), brenin Ceredigion, er ei bod hi yn lleian, ac iddi mewn canlyniad esgor ar [Ddewi Sant](#). Pan bregethai [Gildas Sant](#) un tro yn un o eglwysi'r ardal, collodd ei leferydd am fod Non yno yn feichiog o [Ddewi](#). Adroddir hanes cyffelyb hefyd am Ailbe Sant ym ' Muchedd Ailbe Sant ' (Plummer, *Vitae Sanct. Hib.*). Digwyddodd rhyfeddodau pellach, yn ôl y stori, adeg geni [Dewi](#). Dywed [Rhygyfarch](#) i Non, wedi geni [Dewi](#), fyw bywyd hollol ddiwair; ar y llaw arall, myn traddodiad Gwyddelig mai hi hefyd oedd mam Mor, fam Eltin Sant, a Magna, hithau yn fam i Setna Sant. Dywedir i Non wedi hyn ymfudo i Gernyw, lle y cysegrwyd nifer o eglwysi i'w henw. Gwell gan Doble (*S. Nonna*), er hynny, gredu mai g r o fynach a fu'n gydymaith i [Ddewi Sant](#) oedd y Nonna Cernywaidd. Edwyn traddodiad Llydewig Non wrth yr enw Melaria. Ceir yr eglwysi sydd yn arddel enw Non yng Nghymru bob un yn agos i eglwysi'n dwyn enw [Dewi](#), sef Llannerchaeron a Llannon yng Ngheredigion a Llannon yn Sir Gaerfyrddin. Yr oedd hefyd gapelau yn dwyn ei henw ym mhlwyf Cregrina (Llanbadarn-y-garreg) yn sir Faesyfed, ac yn Ilston yn Sir Forgannwg. Dethlid g yl y santes Non yng Nghymru ar 2 Mawrth.

### Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

### Ffynonellau

*The Lives of the British Saints*, ii, 288-92; iv, 22-5

Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Caerdydd 1944), 151-3

Plummer, *Vitae Sanctorum Hiberniae partim hactenus ineditae* (Oxford 1910), i, 53

G. H. Doble, *Saint Nonna*

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Non](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2487289](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.